## Grŵp Trawsbleidiol ar Glefydau Seliag a Dermatitis Herpetiformis
## Cross-party Group on Coeliac Disease and Dermatitis Herpetiformis

Dyddiad ac amser: Nos Fawrth 16 Mehefin 2020 18.00-19.00
Tuesday 16 June 2020, 18.00-19.00
Lleoliad: dros Zoom

Dr Dai Lloyd AS – Cadeirydd (DL), Heidi Urwin, Cyfarwyddwr Tystiolaeth a Pholisi, Coeliac UK (HU) yn dirprwyo ar ran Tristan Humphreys - Ysgrifennydd/Coeliac UK, Ruth Passmore, Pennaeth Polisi Iechyd, Coeliac UK (RP)

Yn bresennol: Alison Jones (AJ), Claire Constantinou (CC), Ieuan Davies (ID), Graham Philips (GP), Ian Severn (IS), Jill Swift (JS), Ryland Doyle (RD) (yn sefyll i mewn dros Mike Hedges MS), Sian Evans (SE), Rhun ap Iorweth (RaI), Geraint Preest (GPr)

| Rhif. | Eitem |
|---|---|
| 1 | **Ymddiheuriadau am absenoldeb:**<br><br>Jenny Pugh-Jones, Mark Isherwood a Mike Hedges |
| 2 | **Cofnodion y cyfarfod diwethaf**<br><br>a. Trafod y cofnodion a'u cymeradwyo<br><br>Cymeradwywyd y Cofnodion heb eu diwygio.<br><br>b. Materion sy'n codi<br><br>Mae'r llythyr at y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ynghylch gwasanaethau endosgopi wedi cael ei ohirio; nis anfonwyd eto.<br><br>Bwyd ysbytai - Rhoddodd RP ddiweddariad ar adnoddau Coeliac UK ar gyfer arlwyo yn y sector ysbytai:<br><br>• Datblygwyd canllawiau am ddim gyda'r Asiantaeth Safonau Bwyd. Gellir lawrlwytho'r rhain o wefan Coeliac UK<br>• Cafodd hyfforddiant Coeliac UK ar gyfer arlwywyr ei ddiweddaru yn ddiweddar ac mae bellach ar blatfform ar-lein newydd. Mae modiwl penodol ar gyfer arlwywyr ysbytai.<br>• Mae cynllun achredu heb glwten Coeliac UK wedi bod yn rhedeg ers sawl blwyddyn ac mae tîm masnachol Coeliac UK yn canolbwyntio ar arlwyo yn y sector cyhoeddus, yn dilyn llwyddiant yn y sector preifat. Ar hyn o bryd mae tri ysbyty wedi cael achrediad. RP i rannu manylion gyda CC.<br><br>Rhoddodd HU y wybodaeth ddiweddaraf am y grŵp hollbleidiol seneddol a'r grŵp trawsbleidiol yn Senedd yr Alban. Mae Coeliac UK yn bwriadu ailsefydlu'r grŵp hollbleidiol seneddol ar glefyd seliag a'r grŵp trawsbleidiol yn Senedd yr Alban tua diwedd 2020, os yw amgylchiadau presennol yn caniatáu. |
| 3 | **Effaith Covid-19**<br><br>**Effaith ar bobl â chlefyd seliag**<br><br>Rhoddodd HU y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch Covid-19 a chlefyd seliag. Gwelwyd cynnydd enfawr yn nifer y cwestiynau oddi wrth y gymuned, gan |

gynnwys teirgwaith y galwadau i Linell Gymorth Coeliac UK a chynnydd o 500 y cant mewn gweithgarwch ar gyfryngau cymdeithasol.

Cynhaliodd Coeliac UK arolwg o'r gymuned ynghylch mynediad at fwyd heb glwten a chafodd >3,000 o ymatebion, gyda 4 y cant o'r rheini o Gymru. Paratôdd Coeliac UK y diwydiant bwyd a manwerthu, a darparodd wybodaeth ar hwb coronafeirws ar y wefan.

Hefyd, bu rhywfaint o amwysedd ynghylch lle pobl â chlefyd seliag yn ffitio yng nghyngor y Llywodraeth ynglŷn â grwpiau sydd mewn perygl. Nid oes risg uwch i bobl â chlefyd seliag o haint feirws, ond mae risg bosibl o gymhlethdodau oherwydd heintiau bacterol eilaidd. Mae tua 30 y cant o bobl â chlefyd seliag mewn perygl o gael problem gyda'r ddueg yn peidio â gweithio'n iawn (hyposplenism), ond nid yw gweithrediad y ddueg yn cael ei asesu'n rheolaidd. Mae'n debyg bod y risg hon yn ymwneud â nifer y blynyddoedd y mae'r cyflwr yn mynd heb ddiagnosis a thriniaeth, ac felly mae'r risg i blant yn isel. Oherwydd y risg o gael problemau dueg, mae Iechyd Cyhoeddus Lloegr yn argymell brechiadau penodol (gan gynnwys brechu rhag y ffliw) ar gyfer pobl â chlefyd seliag.

Mae cyngor cyfredol Llywodraeth Cymru yn nodi bod pobl sydd â phroblemau dueg yn agored i niwed yn glinigol, ond yn Lloegr mae'r grŵp hwn wedi cael ei dynnu o gategori pobl sy'n agored i niwed yn glinigol. Yn Lloegr, pobl y cynigir brechiad rhag y ffliw iddynt sy'n cael eu hystyried yn agored i niwed yn glinigol bellach. Mae Coeliac UK (CUK) wedi ysgrifennu at yr Adran Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Lloegr, yn gofyn am eglurder a chysondeb. Mae CUK hefyd wedi ymateb i alwad ddiweddar am dystiolaeth gan Bwyllgor Covid-19 Senedd yr Alban.

Cyngor cyfredol CUK yw y gall pobl â chlefyd seliag ystyried eu hunain fel rhai sy'n dod o fewn y grŵp sy'n agored i niwed yn glinigol gan fod y cyngor yn cael ei ddarparu i gymuned heb wybodaeth am gyflwr eu hiechyd, cadw at ddiet heb glwten, statws brechiadau ac ati.

Camau i'w cymryd: DL a HU i ddrafftio llythyr at Weinidog Iechyd Cymru i gael eglurhad gan Lywodraeth Cymru

**Dim strategaeth biopsi ar gyfer oedolion**

Mae Covid-19 hefyd wedi cael effaith ar ddiagnosis o glefyd seliag. Mae meddygon teulu wedi atal fflebotomi dianghenraid; dim ond endosgopïau brys sydd wedi cael eu gwneud, ac mae oedolion â lefel uchel o wrthgyrff y mae amheuaeth glinigol yn eu cylch wedi cael eu rhoi ar ddeiet heb glwten.

Mae Cymdeithas Gastroenteroleg Prydain (CGP) wedi cyhoeddi canllawiau pragmatig ar strategaeth dim biopsi ar gyfer oedolion <55 oed, a allai fod yn berthnasol i oddeutu 40 y cant o oedolion yn y categori oedran hwn a fyddai'n cael cynnig diagnosis heb biopsi.

Rhannodd JS ei phrofiad gydag oddeutu 1,000 o bobl ar y rhestr aros, a fydd yn golygu amseroedd aros o 6 i 12 mis. Mae atgyfeiriadau gan feddygon teulu yn cael eu derbyn gyda lefelau tTG uchel ac mae trafodaethau yn cael eu cynnal â chleifion ynghylch a ddylen nhw gael eu trin â diet heb glwten neu aros am endosgopi.

Nododd CC bwysigrwydd cael cymorth dietetig i unrhyw un yr argymhellir iddo ddilyn diet heb glwten, ni waeth a gafodd fiopsi ai peidio. Mewn rhai ardaloedd, mae fideos yn cael eu defnyddio i ddarparu cymorth llinell gyntaf.

| | |
|---|---|
| | Rhannodd IHD ei brofiad o ran effaith Covid-19 ar wasanaethau pediatreg ar gyfer clefyd seliag. Mae canllawiau Cymdeithas Ewropeaidd Gastroenteroleg, Hepatoleg a Maeth (ESPGHAN) 2019 bellach wedi cael eu mabwysiadu oherwydd Covid-19. Mae'n hanfodol bod gofal ar gyfer plant yn cael ei adlewyrchu yn y canllawiau cenedlaethol. Nid oedd gan y Cynllun Endosgopi Cenedlaethol unrhyw wybodaeth am blant. Yn anffodus, pan fydd biopsïau'n cael eu cynnal eto, bydd clefyd seliag yn isel ar y rhestr flaenoriaeth, a bydd hyn yn arwain at amseroedd aros hir.<br><br>Cam i'w gymryd: HU a DL i gwrdd y tu allan i'r Grŵp Trawsbleidiol i ddrafftio llythyrau at yr Ysgrifennydd Iechyd ar ganllawiau Covid-19 a gwasanaethau endosgopi.<br><br>Rhoddodd IHD y wybodaeth ddiweddaraf am waith gyda chydweithwyr ym maes imiwnoleg i newid y ffordd yr adroddir am seroleg seliag ledled Cymru ar gyfer plant. Roedd angen hyn er mwyn osgoi gwallau cyffredin yn y llwybr diagnosis (megis dechrau diet heb glwten cyn i'r profion gael eu cwblhau), i fodloni safonau ansawdd NICE ar glefyd seliag ac i wella'r broses ddiagnosis i blant a'u teuluoedd. Yn dilyn y gwaith hwn, cynigir Llwybr Cymru Gyfan ar gyfer oedolion a phlant (gan gynnwys trosglwyddo i wasanaethau oedolion) i sicrhau bod gofal yn bodloni safonau ansawdd NICE.<br><br>Cam i'w gymryd: HU a DL i gwrdd y tu allan i'r Grŵp Trawsbleidiol i ddrafftio llythyrau at yr Ysgrifennydd Iechyd ar lwybr cleifion |
| 4 | **Prescripsiynu i Heb Glwten**<br><br>a. Y wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa yn Lloegr<br><br>Rhoddodd RP y wybodaeth ddiweddaraf am bresigripsiynu heb glwten yn Lloegr. Rhwng 2016 a 2019 roedd cyfanswm cost presgripsiynu bwydydd heb glwten wedi gostwng 25-30 y cant y flwyddyn o £22.4 miliwn yn 2016 i £7.92 miliwn yn 2019. Prif ysgogiad y gostyngiad yw'r polisïau cyfyngol a gyflwynwyd gan Grwpiau Comisiynu Clinigol. Ar ddiwedd 2018 yn Lloegr, gwaharddwyd pob bwyd heblaw bara a chymysgeddau blawd, ac mae hyn hefyd wedi arwain at ostyngiad yng nghost presgripsiynu bwydydd heb glwten.<br><br>Mae nifer yr ymgynghoriadau gan Grwpiau Comisiynu Clinigol ar bolisïau presgripsiynu wedi lleihau ers diwedd 2018. Hyd yn hyn yn 2020, nid oes unrhyw ymgynghoriadau newydd ar ragnodi heb glwten wedi cael eu lansio. Mae nifer o Grwpiau Comisiynu Clinigol wedi uno ers 1 Ebrill, a gallai hyn arwain at gyfyngiadau pellach wrth i grwpiau sydd â pholisïau gwahanol uno. O'r 18 Grŵp Comisiynu Clinigol newydd, mae gan 7 gymysgedd o bolisïau ar gyfer presgripsiynu heb glwten. Mae Coeliac UK wedi ysgrifennu at GIG Lloegr i ofyn am eglurder ynghylch y broses sydd ei hangen i grwpiau comisiynu clinigol ddatblygu polisi newydd o dan yr amgylchiadau hyn ac mae hefyd yn monitro'r grwpiau comisiynu clinigol y nodwyd bod ganddynt bolisïau sy'n gwrthdaro.<br><br>b. Diweddariad llafar ar gynllun Hywel Dda<br><br>Rhoddodd AJ ddiweddariad ar gynllun Hywel Dda. Mae'r cynllun cardiau yn cael ei gyflwyno i wyth practis meddyg teulu newydd ar sail optio i mewn. Bydd y rhai sy'n ymuno â'r cynllun yn cael cerdyn sy'n ddilys am dair blynedd ac mae'r taliadau'n ddigyswllt. Mae fideos hyfforddi ar gyfer dietegwyr a nyrsys yn cael eu datblygu ar hyn o bryd. |

| | |
|---|---|
| | Cafodd gweithgorau eu hatal dros dro oherwydd Covid-19 ond maent bellach yn dechrau cyfarfod eto, gan gynnwys grŵp cyllid a grŵp canlyniadau. Mae'r grŵp cyllid yn defnyddio methodoleg newydd i adolygu'r swm a ddyrennir i bob grŵp oedran, ac mae hyn yn debygol o arwain at swm uwch i blant, yn enwedig ar gyfer bechgyn 15-18 oed.<br><br>Ar hyn o bryd mae derbynebau'n cael eu harchwilio ar gyfer y cynllun, ond mae angen datblygu dull arall ar gyfer archwilio. Cynigir y bydd tua 5 y cant o'r cyfranogwyr yn cael eu harchwilio bob 6 mis.<br><br>Gwnaeth CC sylwadau ar yr angen am dryloywder ynghylch faint o amser ac adnoddau sydd eu hangen i reoli'r cynllun, gan y bydd hyn yn bwysig pan fydd Byrddau Iechyd eraill yn ystyried mabwysiadu'r cynllun.<br><br>c. Cyfarfod â'r Prif Fferyllydd<br><br>Adroddodd RP yn ôl o'r cyfarfod fod RP a TH yn bresennol gydag Andrew Evans (AE), Prif Fferyllydd, ym mis Tachwedd 2019. Roedd y cyfarfod yn gadarnhaol a chadarnhaodd AE nad oes unrhyw awydd i leihau argaeledd bwyd heb glwten yng Nghymru, a bod natur agored i fodel cymysg gyda phresgripsiynau a model amgen, fel yr un sy'n cael ei gyflwyno yn ardal Hywel Dda.<br><br>Cadarnhaodd AE y bydd rhestr mis Tachwedd 2018 gan y Pwyllgor Cynghori ar Sylweddau Ffiniol (PCSFf) yn cael ei chadw fel y rhestr o gynhyrchion rhagnodedig. Bydd yr PCSFf yn parhau i adolygu ceisiadau am gymysgeddau bara a blawd newydd ond nid ar gyfer cynhyrchion eraill fel pasta a chraceri. Gan mai ychydig iawn o gynhyrchion sy'n cael eu cyflwyno i''r PCSFf ar gyfer eu hystyried, ni fyddai'n ymarferol datblygu panel ar gyfer cynhyrchion newydd (heblaw cymysgeddau bara a blawd) yng Nghymru. Dyma'r dull sy'n cael ei ddefnyddio yn yr Alban. |
| 5 | **Unrhyw fater arall**<br><br>Canmolwyd banciau bwyd yn Abertawe am fynd y filltir ychwanegol o ran cyflenwi parseli bwyd sy'n bodloni gofynion dietegol arbennig. |
| 6 | **Dyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol:**<br><br>Dyddiad i'w gadarnhau |

Camau gweithredu:

| Cam i'w gymryd | Aelod |
|---|---|
| Llythyr at y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon gyda meddyliau ynghylch gwasanaethau endosgopi | DL ac HU |
| Llythyrau at yr Ysgrifennydd Iechyd ar lwybr cleifion seliag | DL, HU ac IHD |
| Llythyr at yr Ysgrifennydd Iechyd ar ganllawiau Covid-19 a gwasanaethau endosgopi | DL ac HU |